Radicaleiddio ar-lein – Gwybodaeth a chymorth i rieni/gwarcheidwaid

Rydym yn cydnabod bod hwn yn gyfnod anodd i rieni a gwarcheidwaid a bod y **Coronafeirws** yn cael effaith sylweddol ar bobl ifanc a theuluoedd ym mhedwar ban byd.
Mae cau ysgolion yn golygu y bydd cyfleoedd i blant siarad a chwarae gyda ffrindiau yn cael eu cyfyngu i ryngweithio ar-lein. Mae bron yn sicr felly y bydd plant yn treulio mwy o amser ar-lein.
Mae'n bosibl na fydd rhieni sy'n gweithio gartref yn gallu monitro defnydd eu plant o ddyfeisiau fel y byddent fel arfer.



Yn anffodus, er eu bod yn brin, mae dylanwadwyr negyddol a phobl sy'n meithrin perthynas amhriodol ar-lein yn defnyddio'r rhyngrwyd, y cyfryngau cymdeithasol a gemau ar-lein i ledaenu eu syniadau eithafol, y gall plant fod yn agored iddynt. Gall rhai o'r syniadau hyn gael eu hystyried yn radical neu'n eithafol a phan fydd unigolyn yn dechrau eu cefnogi neu gymryd rhan ynddynt, gelwir hyn yn radicaleiddio.

Ein profiad ni o radicaleiddwyr yw y gallant gysylltu eu safbwyntiau eithafol ag ymatebion rhyngwladol, cenedlaethol neu unigol i'r Coronafeirws a gellid dangos hyn drwy ffilmiau, delweddau a thrafodaethau fel:



- **Damcaniaethau cynllwynio**
- **Beio pobl eraill am y feirws a'i effaith ar fywyd**
- **Casineb yn erbyn grwpiau oherwydd hil, crefydd, rhywioldeb a rhywedd**

Bydd radicaleiddwyr am i gynifer o bobl â phosibl gredu eu syniadau ac weithiau byddant yn eu hannog i weithredu, a allai dorri'r gyfraith. Dyma sut y gall pobl gael eu denu at derfysgaeth.

Beth yw arwyddion posibl radicaleiddio ar-lein?

Gallai diflastod wneud i blant ymgysylltu â grwpiau neu unigolion newydd a gallai hyn eu gwneud yn agored i niwed gan y bobl hynny sydd eisiau dylanwadu ar bobl ifanc.
Gall fod yn anodd i rieni sylwi ar radicaleiddio ar-lein gan ei fod yn fater cymhleth. Mae arwyddion posibl y gall fod angen cymorth ar rywun (er bod llawer ohonynt yn eithaf cyffredin ymhlith pobl ifanc yn eu harddegau), ond cadwch lygad am achosion cynyddol o'r canlynol:



- **Archwilio gwefannau, fforymau sgwrsio a llwyfannau newydd ac anarferol oherwydd diflastod neu rwystredigaeth.**
- **Ymuno â grwpiau newydd neu gyfrinachol yn ystod y cyfnod ynysu.**
- **Siarad â ffrindiau newydd neu fod yn gyfrinachol am sgyrsiau mewn gemau ar-lein neu ar fforymau.**
- **Dyhead cryf i chwilio am ystyr, hunaniaeth a diben newydd.**
- **Defnyddio iaith na fyddech yn disgwyl iddynt ei gwybod.**
- **Gwylio, rhannu neu greu ffilmiau ar-lein sy'n gysylltiedig â chasineb crefyddol, gwleidyddol neu hiliol.**

Gall radicaleiddwyr dargedu pobl ifanc drwy anfon ceisiadau ffrind atynt ar wefannau a llwyfannau poblogaidd i weld pwy sy'n ymateb. Gallant ddechrau sgwrs er mwyn meithrin cydberthynas â phlentyn a gofyn iddo sgwrsio'n breifat.
Yn aml, gofynnir i bobl ifanc barhau â thrafodaethau, nid ar y cyfryngau cymdeithasol prif ffrwd ond ar lwyfannau a fforymau eraill er mwyn gwneud y radicaleiddiwr yn fwy anhysbys a gall hyn fod yn anoddach i'w fonitro.



Beth gallwch ei wneud…

Mae'r pethau hyn yn awgrymu y gall fod angen cymorth ar y person ifanc, ond chi sy'n adnabod eich plentyn orau ac rydym yn eich cynghori i siarad ag ef yn y lle cyntaf.
Dylech ddechrau sgwrs a gofyn cwestiynau am beth mae'n ei wylio, â phwy mae'n siarad a sut mae'n teimlo. Gall hyn deimlo'n anodd, ond dyma rai awgrymiadau i'ch helpu chi:

- **Gwrandewch yn ofalus ar ei ofnau a'i bryderon. Mae rhai awgrymiadau defnyddiol yma.**
- **Ceisiwch osgoi esboniadau cymhleth a phryderus a allai fod yn frawychus ac yn ddryslyd.**
- **Mae cyngor a chymorth i'w helpu i ddeall y Coronafeirws.**
- **Os yw'r person ifanc yn cael trafferth ymdopi â phrofedigaeth a galar, gellir dod o hyd i gyngor yma.**

Gallwch gael rhagor o wybodaeth o'r gwefannau canlynol. Bydd y rhain yn eich helpu i ddeall pam mae angen mwy o gymorth ar bobl weithiau os ydynt wedi cael eu radicaleiddio, beth sydd ar gael a sut i gael gafel arno.

NSPCC

LET'S TALK ABOUT IT

internet matters.org

COUNTER TERRORISM POLICING

THINK U KNOW .co.uk

parentINFO FROM CEOP AND PARENT ZONE

childline
ONLINE, ON THE PHONE, ANYTIME
childline.org.uk | 0800 1111

Os oes gennych unrhyw ofidiau neu bryderon…

LET'S TALK ABOUT IT

I ddechrau, byddem yn eich cynghori i siarad â'r **Arweinydd Diogelu Penodol** yn **ysgol neu goleg** eich plentyn. Bydd yr unigolyn hwn yn adnabod eich plentyn a bydd wedi cael hyfforddiant ychwanegol i wybod sut i adnabod ymddygiad sy'n peri pryder. Gall drafod eich pryderon â chi, rhoi cyngor a cheisio cymorth ychwanegol os bydd ei angen arnoch.

Os byddai'n well gennych siarad ar-lein, gall y gwefannau hyn eich helpu i rannu eich pryderon gwahanol:

- **Os ydych yn byw yng Nghymru, rhannwch eich pryderon am radicaleiddio yma**
- **Os ydych am roi gwybod am unrhyw bryderon terfysgaeth amheus**
- **Os oes angen i chi roi gwybod am drosedd casineb**
- **Os ydych wedi gweld rhywbeth ar-lein sy'n cefnogi neu'n clodfori terfysgaeth neu'n cyfeirio ati, gan gynnwys gwefannau, ffilmiau neu ddelweddau, rhowch wybod amdanynt yma.**
- **Mae gan yr NSPCC linell gymorth 0808 800 5000 er mwyn siarad â rhywun neu ffurflen ar-lein i rannu eich pryderon am eich plentyn.**



ACT | ACTION COUNTERS TERRORISM

